

LLYFR CYLLIDEB 2020-21



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

CYHOEDDWDYD MAWRTH 2020

CYNNWYS	Tudalen
Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2020-21	
- Cyflwyniad	1
- Ffeithiau Allweddol am y Gyllideb 2020-21	2
- Trosolwg Ariannol	3-4
- Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor	5-6
Crynodeb o'r Taliadau i'w Codi	
- Gofyniad y Dreth Gyngor 2020-21	7
- Gwerthoedd Amrediad Bandiau'r Dreth Gyngor 2020-21 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	8
- % cynnydd Band D y Dreth Gyngor 2020-21	8
- Taliadau Treth Gyngor Band D yn ôl Ardal Cyngor Cymuned 2020-21	9
- Canran yr Anheddau yn ôl Band Eiddo ar 21.1.2020	9-10
- Ardrethi Annomestig (Busnes) (NDR)	11
Cyllideb Refeniw 2020-21	
- Cyllideb Gros i Gyllideb Net	12
- Gwariant Refeniw Net yn ôl Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth - Crynodeb	13
- Siart Gwariant Refeniw Net yn ôl Gwasanaeth	13
- Ariannu Gwariant Refeniw Net	14
- Gwariant Gwasanaeth Net yn ôl Math Goddrychol	14
- Cyllideb Net yn ôl Amcan Llesiant	15
- Gwariant Refeniw Gros	15
• Lle Mae'r Arian yn Cael ei Wario - yn ôl Math o Wariant	16
• Lle Mae'r Arian yn Cael ei Wario - yn ôl Maes Gwasanaeth	17
• O Ble y Daw'r Arian	18
- Gwariant Refeniw Net yn ôl Cyfarwyddiaeth	19-31
Cyllideb Gyfalaf 2020-21	
- Cyllideb Gyfalaf	32
- Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf	32
- Dyrannu'r Gyllideb Gyfalaf	33
- Gwariant Cyfalaf yn ôl Amcan Llesiant	34
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Ystadegau Allweddol	
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	34
- Ystadegau Gwasanaethau	35-41
Ystadegau Cymharol Cymru	
- Ystadegau Cymharol Cymru	42-44
Geirfa	45-47

CYLLIDBAU REFENIW A CHYFALAF 2020-21

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyllidebau refeniw a chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2020-21 ar ffurf gryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall.

Mae'n cynnwys crynodeb o'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2020, a gwybodaeth arall am ariannu'r gyllideb gyffredinol, gan gynnwys y ffordd y caiff y Dreth Gyngor ei phennu. Mae'n cynnwys y rhaglen gyfalaf sydd ar waith tan 2029-30 hefyd. Diben y wybodaeth yn y ddogfen hon yw helpu'r cyhoedd, aelodau, prif swyddogion a'u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol a pharatoi ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y llyfryn hwn, cysylltwch â'r Pennaeth Cyllid Dros dro a'r Swyddog Adran 151, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB neu e-bostiwrch Gill.Lewis@Bridgend.gov.uk.



Trosolwg Ariannol

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud £68 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Er y pennir mai cyllideb refeniw net y Cyngor yw £286.885 miliwn ar gyfer 2020-21, mae ei wariant gwirioneddol yn llawer mwy na hyn. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan grantiau neu ffioedd a thaliadau penodol, bydd cyllideb gros y Cyngor oddeutu £422 miliwn yn 2020-21.

Mae cyllideb refeniw flynyddol yr awdurdod lleol yn cwmpasu costau rhedeg yr awdurdod lleol o ddydd i ddydd (gan gynnwys cyflogau staff, gwasanaethau ar contract, cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau, costau gweithredol ac ati.). Mae tua £183 miliwn o'r gyllideb gros yn cael ei wario ar staff y Cyngor ei hun gan gynnwys athrawon a staff cymorth ysgolion. Mae llawer o gost y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol yn gysylltiedig â chyflogau hefyd – mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gweithredwyr casglu gwastraff, gweithwyr gofal cartref, staff hamdden a gofalwyr maeth.

Mae'r Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran o Ardrethi Annomestig. Mae'n ategu hyn drwy gasglu'r dreth gyngor, grantiau eraill a ffioedd a thaliadau. O ran y dreth gyngor, mae cyfran y dreth gyngor sy'n ofynnol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ariannu bron i 30% o'r gyllideb ar hyn o bryd.

Yn ogystal â bod â llai o incwm i ariannu gwasanaethau, mae mathau eraill o bwysau sy'n rhoi straen ar adnoddau. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – er enghraifft pwysau a chyfrifoldebau newydd sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae pwysau sylweddol arall yn deillio o newidiadau demograffig. Mae pobl yn byw'n hirach, sy'n newyddion da, ond gall hynny olygu dibyniaeth gynyddol hefyd wrth i bobl fyw gyda chyflyrau mwy cymhleth neu gyflyrau lluosog. Yn ogystal, rydym yn gweld cynnydd yn nifer y disgyblion yn ein hysgolion, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau ysgolion.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun corfforaethol sy'n egluro'r dulliau gweithredu y bydd yn eu cymryd i reoli'r mathau hyn o bwysau ond gan barhau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymuned Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma'r dulliau gweithredu:

- Er ei fod yn sefydliad mawr a chymhleth, bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i weithio fel un sefydliad unigol. Mae hynny'n golygu osgoi dyblygu a thrin data

ddwywaith drwy rannu systemau a phrosesau. Nid yw hyn mor hawdd ag y mae'n swnio bob amser oherwydd bod gwahanol reolau neu gyfleoedd yn berthnasol i wahanol wasanaethau yn aml. Serch hynny, mae gweithredu fel 'Un Cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau' wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth y Cyngor.

- Lle bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i greu eu hatebion eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gynaliadwy i'r Cyngor barhau i geisio diwallu pob angen sy'n codi ac oherwydd bod cynhwysedd, doniau a syniadau mewn rhannau eraill o'r gymuned y gellir eu hannog i chwarae rhan weithredol ac effeithiol. Mae gan y Cyngor rôl o ran annog ac arwain y dull hwn ac mae wedi mabwysiadu hyn fel un o'i egwyddorion sylfaenol.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n crebachu ar y cymunedau a'r unigolion mwyaf anghenus. Mae gan rannau o'n cymuned broblemau tlodi ac anfantais hirsefydlog. Nid yw'r atebion i hyn i gyd dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor (er enghraifft, effaith newidiadau i'r system les) ond lle bo modd mae'r Cyngor wedi cytuno ei fod am leddfu problemau yn yr ardaloedd hyn a datblygu atebion cynaliadwy tymor hwy.
- Mae gan y Cyngor dri amcan llesiant sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac egwyddorion eraill. Wrth bennu ein hamcanion llesiant, rydym yn egluro'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni a pham eu bod yn bwysig. Yr amcanion llesiant yw
 - I. Cefnogi economi lwyddiannus,
 - II. Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn, a
 - III. Gwneud defnydd doethach o adnoddau.
- Mae ein hamcanion llesiant wedi'u hintegreiddio, sy'n sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni canlyniadau a rennir.

Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor

Gwasanaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n galluogi cannoedd ar gannoedd o wasanaethau ar draws yr holl gymunedau amrywiol o fewn y fwrdeistref sirol ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau megis addysg, gofal cymdeithasol, priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy, diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, cofrestrwyr a chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd drwy ein partneriaid HALO ac Awen.

Mae'r Cyngor yn ysgwyddo dau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Gwariant Refeniw

Mae gwariant refeniw'n cynnwys gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu ac offer. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a geir gan dalwyr y dreth gyngor, talwyr ardrethi busnes, y ffioedd a'r taliadau a godir am rai gwasanaethau ac o grantiau a geir gan Lywodraeth Cymru.

Gwariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, cynlluniau ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn cynnig manteision i'r gymuned am nifer o flynyddoedd a chaiff y gwariant ei ariannu'n bennaf drwy fenthycu, grantiau cyfalaf a gwerthu tir ac adeiladau diangen.

Ffynonellau Cyllid

Y prif ffynonellau incwm y mae'r Cyngor yn eu derbyn yw ffioedd a thaliadau, grantiau, ardrethi busnes a'r dreth gyngor. Rhoddir diffiniad ohonynt isod:

- **Ffioedd a Thaliadau a Godir**

Mae ffynonellau incwm o ffioedd a thaliadau a godir yn amrywio o daliadau am barcio i lety preswyl i'r henoed, taliadau prydau ysgol, taliadau cynllunio, taliadau am gasglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau ac incwm o osod eiddo masnachol fel unedau diwydiannol.

- **Grantiau gan y Llywodraeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys y grant unigol mwyaf, sef y Grant Cynnal Refeniw, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiben y maent yn ei ddewis wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a ddarperir i gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Yn ogystal â'r cyllid y mae awdurdodau'n ei gael gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u clustnodi gan gyrff eraill y llywodraeth (dim ond at y dibenion penodol y cânt eu darparu ar eu cyfer y gellir defnyddio'r grantiau hyn).

Ardrethi Busnes

Mae awdurdodau lleol yn derbyn incwm o ardrethi busnes annomestig a bennir yn genedlaethol hefyd.

- **Ariannu Cyfalaf**

Mae awdurdodau lleol yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf hefyd, a gallant bennu faint y gallant fforddio ei fenthycir ar sail asesiad darbodus o'u cyllid gan ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol (Cod Materion Ariannol). Cyfeirir at arian a fenthycir o dan y cod fel benthyca darbodus.

- **Y Dreth Gyngor**

Ar ôl ystyried incwm o ffioedd a thaliadau, grantiau'r llywodraeth ac ardrethi annomestig, ariennir gwariant refeniw gan dreth gyngor, a godir ar bob eiddo o fewn ardal y Cyngor, yn amodol ar rai disgowntiau ac esemptiadau.

Y Dreth Gyngor yw'r unig elfen o gyllid y Cyngor sy'n seiliedig ar dreth, nad yw'n cael ei bennu gan y Llywodraeth. Yn 2020-21, mae incwm y Dreth Gyngor yn cynrychioli 30% o wariant refeniw net y Cyngor.

CRYNODEB O'R TALIADAU SYDD I'W CODI

Gofyniad y Dreth Gyngor 2020-21

I gwblhau ei gyllideb rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad treth gyngor - sef y swm o arian sydd i'w godi drwy dreth gyngor. Mae hyn ar ôl ariannu'r holl ofynion ac asesu lefelau incwm gan y llywodraeth ac o fannau eraill. Ar hyn o bryd mae'r Dreth Gyngor yn cyfrif am ychydig dan 30% o'r arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn. Mae lefel y cynnydd yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor Gros ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2020-21 yw 55604.38 ar gyfer eiddo sy'n gyfwerth â Band D a'r gyfradd gasglu amcangyfrifedig yw 98%. Felly sylfaen net y Dreth Gyngor yw 54492.29 sy'n rhoi Treth Gyngor Band D o £1,537.06, fel y dangosir yn y tabl isod:

Cyfrifir Treth Gyngor gyfartalog Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr isod:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	2019-20 £	2020-21 £
Gwariant a godwyd i'r Cyfrif Refeniw	420,070,344	421,500,423
Incwm a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw	-149,261,710	-134,615,254
Is-gyfanswm	270,808,634	286,885,169
Grant Cynnal Refeniw	-145,354,407	-153,441,858
Dosbarthiad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes)	-46,452,373	-49,685,392
Is-gyfanswm	79,001,854	83,757,919
Gofyniad y Dreth Gyngor	79,001,854	83,757,919
Sail y Dreth Gyngor Net (Cyfwerth â Band D)	53,710.97	54,492.29
Gofyniad Band D y Dreth Gyngor	£1,470.87	£1,537.06
Newid Canrannol dros y flwyddyn flaenorol	5.40%	4.50%

Mae faint o Dreth Gyngor y mae preswlydd yn ei dalu yn dibynnu ar ba fand mae ei eiddo/annedd ynddo. Mae pob annedd yn cael ei neilltuo i un o naw band gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol (VOA). Bydd y band y dyrennir yr annedd iddo yn seiliedig ar werth yr eiddo ar 1 Ebrill 2003. Fodd bynnag, mae'r VOA yn asesu eiddo pan ofynnir iddi wneud hynny hefyd, megis yn ystod apêl Treth Gyngor neu adolygiad band.

Mae'r tabl isod yn dangos lefel y Dreth Gyngor ar gyfer preswylwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band prisio.


Gwerthoedd Amrediad Bandiau'r Dreth Gyngor 2020-21 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Band	Amrediad Gwerth Anheddau (Gwerth ar 1.4.2003)	Treth Gyngor 2019-20	Treth Gyngor 2020-21
A	Hyd at £44,000	980.58	1,024.71
B	£44,001 i £65,000	1,144.01	1,195.49
C	£65,001 i £91,000	1,307.44	1,366.28
D	£91,001 i £123,00	1,470.87	1537.06
E	£123,001 i £162,000	1,797.73	1,878.63
F	£162,001 i £223,000	2,124.59	2,220.20
G	£223,001 i £324,000	2,451.45	2,561.77
H	£324,001 i £424,000	2,941.74	3,074.12
I	£424,001 a throsodd	3,432.03	3,586.47

Mae Bil y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 (1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021) yn cynnwys taliadau a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a Chynghorau Cymuned/Tref. Mae'r Cyngor yn casglu'r taliadau ar ran y ddau gorff arall drwy fecanwaith y dreth gyngor. Yna, caiff yr arian a gesglir ei dalu i'r cyrff perthnasol yn unol â'r swm y maent wedi'i gynnwys yn eu cyllideb i'w godi ar aelwydydd ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r swm sydd ei angen drwy'r dreth gyngor eleni yn cyfateb i £84 miliwn, cynnydd Band D cyfartalog o 4.5% ar gyfer yr elfen cyngor bwrdeistref sirol. Mae praecept Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru wedi gweld cynnydd Band D cyfartalog o 5.9%, ac mae'r praecept cyngor cymuned wedi gweld cynnydd Band D cyfartalog o 7.3%. Cyfanswm y cynnydd cyffredinol yn y dreth gyngor ar gyfartaledd yw 4.78%.

% Cynnydd Band D y Dreth Gyngor 2020-21



Taliadau Treth Gyngor Band D yn ôl Ardal Cyngor Cymuned 2020-21

Roedd y tabl blaenorol yn dangos y Dreth Gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fesul band eiddo. Mae prae-septau cynghorau cymuned yn amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan greu amrywiadau ac mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o gyfanswm y dreth gyngor, gan gynnwys y cyfanswm sy'n daladwy yn ôl ardal cyngor cymuned ar gyfer eiddo band D yn 2020-21:

Cyngor Cymuned	CBS Pen-y-bont ar Ogwr £	Cyngor Cymuned/Tref £	Heddlu £	Cyfanswm £
Cyngor Cymuned Bracla	1,537.06	40.45	272.72	1,850.23
Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr	1,537.06	107.28	272.72	1,917.06
Cyngor Cymuned Cefn Cribwr	1,537.06	72.81	272.72	1,882.59
Cyngor Cymuned Coety Uchaf	1,537.06	27.84	272.72	1,837.62
Cyngor Cymuned Corneli	1,537.06	57.97	272.72	1,867.75
Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf	1,537.06	31.00	272.72	1,840.78
Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf	1,537.06	40.11	272.72	1,849.89
Cyngor Cymuned Cwm Garw	1,537.06	52.58	272.72	1,862.36
Cyngor Cymuned Trelales	1,537.06	44.02	272.72	1,853.80
Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf	1,537.06	53.32	272.72	1,863.10
Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol	1,537.06	55.14	272.72	1,864.92
Cyngor Tref Maesteg	1,537.06	58.58	272.72	1,868.36
Cyngor Cymuned Merthyr Mawr	1,537.06	26.56	272.72	1,836.34
Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf	1,537.06	28.72	272.72	1,838.50
Cyngor Cymuned Cwm Ogwr	1,537.06	36.00	272.72	1,845.78
Cyngor Tref Pencoed	1,537.06	46.31	272.72	1,856.09
Cyngor Tref Porthcawl	1,537.06	54.80	272.72	1,864.58
Cyngor Cymuned y Pîl	1,537.06	47.88	272.72	1,857.66
Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr	1,537.06	25.63	272.72	1,835.41
Cyngor Cymuned Ynysawdre	1,537.06	33.17	272.72	1,842.95

Canran yr Anheddau yn ôl Band Eiddo ar 21.1.2020

Caiff eiddo ei ddyrannu i fandiau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol, Asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, mae'r dreth gyngor wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio gwerthoedd tai 2003.


Ar gyfer eiddo band A, sef dim ond 15.9% o'r eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae elfen y Cyngor o'r dreth gyngor yn £1,024.71. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y ganran o anheddau cyngor yn ôl band y dreth gyngor.

Band	Amrediad Gwerth Anheddau £.c. (Gwerth ar 1.4.2003)	Cymhareb	Nifer yr Anheddau	% yr aneddau yn y band	Treth Gyngor CBSP 2019-20 £
A	Hyd at £44,000	6/9	10,105	15.89%	1,024.71
B	£44,001 i £65,000	7/9	14,910	23.44%	1,195.49
C	£65,001 i £91,000	8/9	14,245	22.39%	1,366.28
D	£91,001 i £123,00	9/9	10,576	16.63%	1537.06
E	£123,001 i £162,000	11/9	7,658	12.04%	1,878.63
F	£162,001 i £223,000	13/9	4,299	6.76%	2,220.20
G	£223,001 i £324,000	15/9	1,438	2.26%	2,561.77
H	£324,001 i £424,000	18/9	278	0.44%	3,074.12
I	£424,001 a throsodd	21/9	100	0.16%	3,586.47



Mae 61.7% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r hyn sy'n gyfwerth â 'Band D', sef y band a ddefnyddir i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor ar draws Awdurdodau.

% BAND ANEDDIADAU



Ardrethi Annomestig (Busnes) (NDR)

Ardrethi annomestig yw'r ffordd y mae busnesau a pherchnogion eiddo annomestig yn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Caiff y lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol ei bennu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried y newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, 0.535 fydd y lluosydd.

Ardrethi Annomestig (Busnes)	2020-21	2019-20
Lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol (a bennir gan Lywodraeth Cymru)	53.5c fesul £	52.6c fesul £

Cyfrifir Ardrethi Annomestig (NDR) drwy ystyried Gwerth Ardrethol (RV) eiddo a'i luosi â'r 'lluosydd' NDR ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Mae unrhyw eiddo busnes gwag wedi'u heithrio rhag talu ardrethi busnes am dri mis ar ôl i'r eiddo ddod yn wag. Mae yna eithriadau ychwanegol hefyd ar gyfer rhai mathau o eiddo neu eiddo sydd o dan werth ardrethol penodol.

Mae eiddo sydd wedi'i eithrio o ardrethi busnes yn cynnwys: tir ac adeiladau amaethyddol gan gynnwys ffermydd pysgod, adeiladau a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant neu les pobl anabl ac adeiladau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer addoliad crefyddol cyhoeddus a neuaddau eglwys.

Rhyddhad ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru - Daeth cynllun parhaol newydd i rym ar 1 Ebrill 2018. O dan y cynllun presennol, bydd safleoedd busnes â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a bydd y rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar sail raddedig o 100% i sero.

Bydd y mathau canlynol o fusnes yn parhau i gael rhyddhad fel a ganlyn:

- Mae darparwyr gofal plant cofrestredig yn cael rhyddhad o 100% tan 31 Mawrth 2022.
- Mae swyddfeydd post â gwerth ardrethol o hyd at £9,000 yn cael rhyddhad o 100%, ac mae swyddfeydd post â gwerth ardrethol rhwng £9,001 a £12,000 yn cael rhyddhad o 50%.

I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad ardrethi busnes yng Nghymru, edrychwch ar y wefan ganlynol: <https://businesswales.gov.wales/cy/rhyddhad-ardrethi-busnes-yng-Nghymru>

Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr a Manwerthu


Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhyddhad ardrethi ar gyfer eiddo stryd fawr a safleoedd manwerthu sydd wedi'u meddiannu. Rhaid i bob eiddo fod â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai, a dylai'r eiddo fodloni meini prawf penodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Mae'r disgownt hyd at £2,500.

CYLLIDEB REFENIW 2020-21

Cyllideb Gros i Gyllideb Net

Fel rhan o'r gyllideb a'r broses o bennu'r Dreth Gyngor, mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32), lunio cyfrifiad o'r gwariant net amcangyfrifedig, sef gofyniad y gyllideb.

Mae'r diagram isod yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng cyllideb gros a net:



Cyfrif Refeniw




O'r cyfrif hwn y telir am wariant ar wasanaethau awdurdod lleol o ddydd i ddydd. Dyma'r gwariant sy'n destun y craffu a'r cyhoeddusrwydd mwyaf gan ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor ac yn cael ei ariannu'n rhannol, er nid yn unig, o Incwm y Dreth Gyngor.

Gwariant refeniw yn ôl Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth – Crynodeb


Gwariant Gwasanaeth	Cyllideb Net £	Tybiannol Cyfwerth â Band D £
Addysg a Chymorth i Deuluoedd Canolog	21,379,000	114.55
Ysgolion	99,552,000	533.38
Gwasanaethau cymdeithasol a Llesiant	70,894,000	379.83
Cymunedau	27,790,000	148.89
Y Prif Weithredwr	18,228,000	97.66
<u>Cyllidebau ar Draws y Cyngor</u>		
Ariannu Cyfalaf	7,329,120	39.27
Ardollau	7,459,106	39.96
Atgyweirio a Chynnal a Chadw	870,000	4.66
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	15,254,000	81.73
Ardoll Prentisiaethau	650,000	3.48
Costau Cysylltiedig â Phensiynau	430,000	2.30
Premiymau Yswiriant	1,438,000	7.70
Cyllidebau Eraill ar Draws y Cyngor	15,611,943	83.64
Gwariant Net i'w ariannu	286,885,169	1,537.06

Gwariant Refeniw Net fesul Gwasanaeth (£286,885,169)



Ariannu Gwariant Refeniw Net

Mae'r siart canlynol yn dadansoddi'r prif ffynonellau ariannu gwariant net ar gyfer 2020-21:




Gwariant gwasanaethau net yn ôl Math Goddrychol

	Cyllideb £	%
Costau Gweithwyr	182,902,660	43%
Costau Cysylltiedig â Safleoedd	13,241,170	3%
Gwariant Cysylltiedig â Thrafnidiaeth	13,754,470	3%
Cyflenwadau a Gwasanaethau	53,154,437	10%
Taliadau Trydydd Parti	86,404,866	22%
Taliadau Trosglwyddo	60,832,650	16%
Gwasanaethau Cymorth	135,600	0%
Costau Ariannu Cyfalaf	11,074,570	3%
Gwariant Gros	421,500,423	100
Grantiau		
Grantiau penodol y Llywodraeth	(78,720,860)	
Grantiau a chyfraniadau eraill	(10,886,870)	
Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall	(45,007,524)	
Cyfanswm Incwm	286,885,169	

Cyllideb Net fesul Amcan Llesiant

Mae cyllideb refeniw net yr awdurdod, sef £286,885 miliwn, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant, gwasanaethau craidd a swyddogaethau statudol y Cyngor. Mae'r siart isod yn rhoi manylion am y modd y dyrannwyd hyn ar gyfer 2020-21.




Gwariant Refeniw Gros (£421,500,423)

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer 2020-21. Cost gros y gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2020-21 yw £422 miliwn; Mae hyn yn cynnwys gwariant a ariennir gan ffrydiau incwm eraill gan gynnwys grantiau eraill gan y Llywodraeth, grantiau a chyfraniadau eraill, derbyniadau gan gwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.


Mae dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl categori yn y tabl isod:

Ble mae'r Arian yn Cael ei Wario - yn ôl Math o Wariant (£421,500,423)




Ble mae'r Arian yn Cael ei Wario – yn ôl Maes Gwasanaeth (£421,500,423)

Darperir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl maes gwasanaeth yn y tabl isod:



O Ble Daw'r Arian (£421,500,423)



*Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall yn cynnwys trosglwyddiadau o'r Gronfa Gyffredinol (£1.7 miliwn), Incwm Ailgodi Mewnol (£7.36 miliwn), Incwm Mewnol gan gynnwys Incwm Contractau (£13.1 miliwn), Llog Allanol (£ 951 mil) Derbyniadau Cleientiaid a Chwsmeriaid (£21.89 miliwn).

O ble daw pob £1 a werir gan y Cyngor

48c	20c	19c	11c	2c
Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig	Y Dreth Gyngor	Grantiau Penodol gan y Llywodraeth	Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall	Grantiau a Chyfraniadau Eraill
				

Gwariant Refeniw Net yn ôl Cyfarwyddiaeth

Trosolwg Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £121 miliwn ar wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn 2020-2021. Caiff y rhan fwyaf o'r arian hwn ei wario gan y 59 o ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol – ysgolion yw maes gwariant unigol mwyaf y Cyngor. Yn ychwanegol at y gyllideb arfaethedig o £100 miliwn i'w dirprwyo i ysgolion yn 2020-2021, sy'n bennaf yn talu am gyflogau athrawon ac aelodau eraill o staff ysgolion, a chostau rhedeg y cyfleusterau (gwariant refeniw parhaus), mae'r Cyngor wedi ymrwymo £21.6 miliwn i adeiladu ac adnewyddu ysgolion fel rhan o Raglen Foderneiddio Band A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac mae wedi ymrwymo £19 miliwn pellach dros dro fel rhan o Raglen Band B. Mae'r symiau hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf untro ar draws sawl blwyddyn, gydag arian cyfatebol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Refeniw Addysg a Chymorth i Deuluoedd: Gwasanaethau a Ddarperir

Cyllideb Net 2019/2020	ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD	Cyllideb Net 2020/2021
	<u>Dysgu</u>	
2,430,274	Cynhwysiant	2,314,440
1,001,050	Sylfaen	989,600
450,970	Gwasanaeth Ieuenctid	443,820
-	Ôl-14	(1,800)
367,146	Cyngor Statudol a Seicoleg	362,020
1,850,660	Iechyd ac Ymddygiad Emosiynol	1,850,270
622,190	Gwella Ysgolion	603,600
36,330	Gwasanaeth Cerddoriaeth Ysgolion	27,660
133,040	Dysgu Oedolion	129,490
107,230	Sgiliau	97,900
6,998,890	Is-gyfanswm	6,817,000
	<u>Partneriaethau Strategol a Chomisiynu</u>	
3,714,840	Partneriaethau Strategol a Chomisiynu	3,731,100
289,040	Cynllunio Strategol ac Adnoddau	235,540
6,894,600	Strategaeth a Chymorth Busnes	6,885,750
1,522,589	Cymorth i Blant a Dysgwyr	1,489,050
1,594,471	Comisiynu a Phartneriaethau	1,491,200
360,920	Rheolaeth Strategol	350,260
14,376,460	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	14,182,900
	<u>Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig</u>	
93,190,330	Cyllideb Ysgolion Unigol	99,552,000
93,190,330	Is-gyfanswm	99,552,000
	<u>Iechyd a Diogelwch</u>	
384,090	Iechyd a Diogelwch	379,100
384,090		379,100
114,949,770	Cyfanswm: Addysg a Chymorth i Deuluoedd	120,931,000

Refeniw Addysg a Chymorth i Deuluoedd: Math o Wariant

Cyllideb Net 2019/2020	Addysg a Chymorth i Deuluoedd	Cyllideb Net 2020/2021
	<u>Gweithwyr</u>	
3,313,998	Athrawon	2,895,530
258,430	Prif Swyddogion	255,280
12,375,405	Swyddogion	12,140,940
177,730	Arweinwyr Ieuenctid	155,980
415,036	Swyddogion Soulbury	409,910
29,960	Staff Asiantaeth	29,960
985,640	Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol	985,640
	<u>Gwariant Cysylltiedig â Safleoedd</u>	
160,500	Atgyweirio a Chynnal a Chadw	160,500
15,000	Cynnal a Chadw Tir	15,000
20,810	Ynni	20,360
25,050	Rhenti	22,470
10,840	Treth Leol	10,840
2,340	Dŵr	1,440
3,100	Glanhau / Domestig	3,100
26,450	Treuliau Adeiladau Wedi'u Dosrannu	26,450
2,800	Yswiriant	2,800
23,270	Costau Eraill Cysylltiedig â Safleoedd	23,270
	<u>Costau Cysylltiedig â Thrafnidiaeth</u>	
9,850	Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol	9,850
29,170	Llogi Gwasanaethau Fflyd	29,170
5,404,560	Llogi a Phrydlesu Allanol	5,389,820
7,680	Trafnidiaeth Gyhoeddus	17,680
214,252	Lwfansau Ceir	204,250
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
487,990	Offer, Deunyddiau a Dodrefn	489,700
1,620,960	Arlwyo	1,620,960
12,760	Dillad, Iwniffformau, Golchi Dillad	12,760
132,570	Argraffu, Deunyddiau Ysgrifennu, ac ati	87,040
13,420	Hysbysebu	13,420
743,560	Grantiau a Thanysgrifiadau	743,560
315,630	Gwasanaethau	283,090
69,920	Cyfathrebu / Cyfrifiannu	69,920
6,460	Treuliau Staff	6,460
3,061,311	Cyflenwadau a Gwasanaethau amrywiol	2,866,790
50	Yswiriant	50
2,555,700	Costau refeniw Menter Cyllid Preifat	2,574,140
	<u>Taliadau Trydydd Parti</u>	
1,746,529	Awdurdodau Lleol Eraill a Chyd-bwyllgorau	1,729,530
1,382,040	Sefydliadau Gwirfoddol	1,382,040
55,230	Contractwyr	55,230
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
600	Gweinyddu Adrannol	600
	<u>Costau Ariannu Cyfalaf</u>	
960,070	Treuliau Rheoli Dyledion	960,070
36,676,671	Cyfanswm Gwariant	35,705,600
	<u>Incwm</u>	
(7,076,320)	Grantiau	(7,023,300)
(2,162,031)	Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill	(2,102,450)

Cyllideb Net 2019/2020	ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD	Cyllideb Net 2020/2021
Parhad		
(4,308,900)	Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid	(3,863,410)
(1,337,440)	Ailgodi i Bennawd Cyfrif Refeniw Arall	(1,337,440)
(32,540)	Trosglwyddiadau	-
(14,917,231)	Cyfanswm Incwm	(14,326,600)
21,759,440	Cyfanswm: Addysg a Chymorth i Deuluoedd	21,379,000

Cyllideb Refeniw Ysgolion: Math o Wariant

Cyllideb Net 2019/2020	CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG	Cyllideb Net 2020/2021
	<u>Gweithwyr</u>	
64,897,430	Athrawon	70,491,980
26,774,230	Swyddogion	27,175,300
81,030	Arweinwyr Ieuenctid	80,300
1,751,020	Staff Asiantaeth	1,751,020
108,200	Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol	108,200
	<u>Gwariant Cysylltiedig â Safleoedd</u>	
1,226,500	Atgyweirio a Chynnal a Chadw	1,226,500
186,520	Cynnal a Chadw Tir	186,520
2,034,180	Ynni	2,034,180
79,000	Rhenti	79,000
2,045,110	Treth Leol	2,079,880
333,930	Dŵr	333,930
138,400	Gosodion a Ffitiadau	138,400
797,700	Glanhau / Domestig	797,700
34,300	Yswiriant	34,300
88,000	Costau Eraill Cysylltiedig â Safleoedd	88,000
	<u>Costau Cysylltiedig â Thrafnidiaeth</u>	
30,900	Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol	30,900
500	Llogi Gwasanaethau Fflyd	500
187,500	Llogi a Phrydlesu Allanol	187,500
4,680	Trafnidiaeth Gyhoeddus	4,680
15,700	Yswiriant Trafnidiaeth	15,700
29,600	Lwfansau Ceir	29,600
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
3,521,890	Offer, Deunyddiau a Dodrefn	3,521,900
4,277,800	Arlwyo	4,609,800
2,700	Dillad, Iwniffformau, Golchi Dillad	2,700
329,100	Argraffu, Deunyddiau Ysgrifennu, ac ati	329,100
7,000	Hysbysebu	7,000
28,800	Grantiau a Thanysgrifiadau	28,800
153,700	Gwasanaethau	153,700
1,081,500	Cyfathrebu / Cyfrifiannu	1,081,500
2,630,900	Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol	2,630,900
8,900	Treuliau Aelodau	8,900
79,100	Yswiriant	79,100
	<u>Taliadau Trydydd Parti</u>	
20,000	Awdurdodau Lleol Eraill a Chyd-bwyllgorau	20,000

Cyllideb Net 2019/2020	CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG	Cyllideb Net 2020/2021
Parhad		
1,382,100	Contractwyr	1,382,100
200	Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion	200
	Taliadau Trosglwyddo	
124,200	Plant Ysgol / Myfyrwyr	124,200
114,492,320	CYFANSWM GWARIANT	120,853,990
	Incwm	
(15,939,320)	Grantiau	(15,939,320)
(1,491,060)	Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill	(1,491,060)
(3,738,470)	Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid	(3,738,470)
(8,300)	Llog	(8,300)
(90,500)	Ailgodi i Bennawd Cyfrif Refeniw Arall	(90,500)
(34,340)	Trosglwyddiadau	(34,340)
(21,301,990)	CYFANSWM INCWM	(21,301,990)
93,190,330	Cyfanswm: Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion	99,552,000

Trosolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Ar ôl addysg, maes gwariant mwyaf nesaf y Cyngor yw gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gofal cymdeithasol i blant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Mae ethos cryf ar ofal cymdeithasol fel disgyblaeth broffesiynol yn y Gyfarwyddiaeth, ac wrth i'r ddau faes weithio'n agosach gyda'i gilydd mae ffocws cryf ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl hynny yr ydym yn gweithio i'w cefnogi. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys gwell cymorth a chanlyniadau ar gyfer atal, ymyrraeth gynnar a llesiant. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r amcan llesiant o 'helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn' ac mae hefyd yn rhan o gynllun trawsnewid y Gyfarwyddiaeth gyda chyswllt clir â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ein strategaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw rheoli'r galw'n fwy effeithiol a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn lleihau dibyniaeth a galluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymdeithasol yn wasanaeth a arweinir gan alw i raddau helaeth, ac er mai'r strategaeth hirdymor yw galluogi pobl i fod yn fwy hunandibynnol, mae'r ddemograffeg yn dangos bod pobl yn byw'n hirach, gyda chyflyrau mwy cymhleth nag erioed o'r blaen, yn aml. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn byw yn y gymuned a fyddai wedi aros yn yr ysbyty neu wedi mynd i gartref gofal yn y gorffennol. Mae gofal cymdeithasol i blant yn cael ei arwain gan y galw hefyd a gall y pwysau ariannol i ddiwallu anghenion amrywio'n gyflym iawn.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant: Gwasanaethau a Ddarperir

Cyllideb Net 2019/2020	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT	Cyllideb Net 2020/2021
	<u>Gofal Cymdeithasol i Oedolion</u>	
20,175,152	Pobl Hŷn	19,826,580
4,510,007	Anabledd Corfforol/Nam ar y Synhwyrâu Oedolion	4,440,500
15,718,214	Anableddau Dysgu Oedolion	15,937,220
3,470,703	Anghenion Iechyd Meddwl Oedolion	3,458,320
222,980	Gwasanaethau Eraill i Oedolion	225,990
3,442,770	Rheoli a Gweinyddu Gwasanaethau Oedolion	3,023,540
47,539,826	Is-gyfanswm	46,912,150
	<u>Atal a Llesiant</u>	
5,165,323	Hamdden a Chwaraeon	5,033,550
5,165,323	Is-gyfanswm	5,033,550
	<u>Gwasanaethau Plant</u>	
18,875,470	Gwasanaethau Plant	18,948,300
18,875,470	Is-gyfanswm	18,948,300
71,580,619	Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	70,894,000

Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant: Math o Wariant

Cyllideb Net 2019/2020	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT	Cyllideb Net 2020/2021
	<u>Gweithwyr</u>	
374,140	Prif Swyddogion	369,940
32,944,483	Swyddogion	32,684,170
57,860	Swyddogion Soulbury	57,210
288,960	Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol	283,420
28,120	Gweithio Oddi Ar y Gyflogres (IR35)	27,900
	<u>Gwariant Cysylltiedig â Safleoedd</u>	
215,290	Atgyweirio a Chynnal a Chadw	215,290
22,680	Cynnal a Chadw Tir	22,680
7,670	Ynni	5,270
148,350	Rhenti	152,650
4,290	Treth Leol	4,290
2,170	Dŵr	1,970
1,000	Gosodion a Ffitiadau	1,000
10,100	Glanhau / Domestig	10,100
40,060	Treuliau Adeiladau Wedi'u Dosrannu	40,060
121,993	Costau Eraill Cysylltiedig â Safleoedd	142,620
	<u>Costau Cysylltiedig â Thrafnidiaeth</u>	
54,140	Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol	54,340
288,710	Llogi Gwasanaethau Fflyd	292,200
210,410	Llogi a Phrydlesu Allanol	222,760
3,950	Trafnidiaeth Gyhoeddus	19,110
738,320	Lwfansau Ceir	695,840

Cyllideb Net 2019/2020	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT	Cyllideb Net 2020/2021
Parhad		
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
555,321	Offer, Deunyddiau a Dodrefn	572,370
623,789	Arlwyo	612,480
32,100	Dillad, Iwniformau, Golchi Dillad	32,100
115,380	Argraffu, Deunyddiau Ysgrifennu, ac ati	111,610
22,000	Hysbysebu	22,000
1,150,520	Grantiau a Thanysgrifiadau	831,110
588,188	Gwasanaethau	723,690
55,450	Cyfathrebu / Cyfrifiannu	155,410
(62,154)	Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol	(445,670)
	<u>Taliadau Trydydd Parti</u>	
2,834,160	Awdurdodau Lleol Eraill a Chyd-bwyllgorau	3,049,560
4,601,620	Sefydliadau Gwirfoddol	4,660,620
34,423,167	Contractwyr	35,106,690
5,117,470	Sefydliadau Eraill	4,972,420
216,640	Cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	219,040
3,818,262	Cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	4,035,680
	<u>Costau Ariannu Cyfalaf</u>	
225,000	Treuliau Rheoli Dyledion	225,000
89,879,609	Cyfanswm Gwariant	90,186,930
	<u>Incwm</u>	
(2,588,130)	Grantiau	(2,637,080)
(5,345,767)	Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill	(5,870,290)
(9,677,573)	Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid	(10,120,110)
(136,810)	Ailgodi i Bennawd Cyfrif Refeniw Arall	(136,810)
(550,710)	Trosglwyddiadau	(528,640)
(18,298,990)	Cyfanswm Incwm	(19,292,930)
71,580,619	Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	70,894,000

Trosolwg Cymunedau

Adfywio

Mae'r gwasanaeth Adfywio'n parhau i edrych ar fuddsoddi mewn asedau a gwasanaethau anstatudol sy'n cefnogi cymunedau, economi ac amgylchedd Pen-y-bont ar Ogwr a'u datblygu. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio swm bach o Gyllid Adfywio Strategol i roi arian cyfatebol ac i ddenu symiau mwy sylweddol o gymorth grant a chyllid yn erbyn prosiectau strategol y Cyngor. Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol i fuddsoddi yn y tair prif ganol tref sef Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl, tra'n cydgysylltu rhaglenni adfywio strategol a chyfleoedd ar draws yr awdurdod cyfan.

Tir y Cyhoedd (Gwasanaethau Stryd)

Mae'r rhan fwyaf o gyllideb net y Cyngor yn cael ei gwario ar addysg a gofal cymdeithasol - mae'r rhain yn wasanaethau gwerthfawr iawn, ond yn naturiol maent yn

targeddu grwpiau penodol yn ein cymuned. Fodd bynnag, mae gwaith y Cyngor ar dir y cyhoedd yn cael effaith fwy uniongyrchol a gweladwy ar bawb. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i gynnal a chadw priffyrdd, parciau a mannau agored, glanhau ein strydoedd, casglu a gwaredu ein gwastraff.

Cynnal a Chadw Eiddo ac Adeiladau

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o'i bortffolio eiddo masnachol, i nodi ffyrdd o gynyddu incwm drwy ddulliau rheoli a buddsoddi mwy dwys. Mae'r adolygiad yn golygu herio cynnwys presennol portffolio a'r dull o'i reoli, gan nodi cyfleoedd i reoli asedau a'r mecanweithiau sydd eu hangen i sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn incwm. Mae'n rhoi cyngor ar dwf posibl yn y portffolio buddsoddi yn y dyfodol hefyd.

Ynghyd â hyn, mae'r Cyngor yn parhau i waredu asedau nad oes eu hangen arno i ddarparu gwasanaethau mwyach, er mwyn darparu buddsoddiad pellach yn ein rhaglen gyfalaf. Mae'r Cyngor wedi dwyn ynghyd ei swyddogaethau rheoli asedau a chynnal a chadw adeiladau, ac wedi canoli'r holl gyllidebau atgyweirio, cynnal a chadw ac ynni mewn un gwasanaeth 'landlord corfforaethol' o fewn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi i reoli cydymffurfiaeth yn well, ymgorffori dulliau 'costio oes gyfan' yn y broses o wneud penderfyniadau, rheoli ansawdd y gwaith a wneir gan contractwyr, a thrwy hynny sicrhau effeithlonrwydd wrth reoli ein hystâd.

Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau y gweithredir y model Landlord Corfforaethol yn barhaus. Bwriedir i hyn arwain at arbedion pellach o £350,000 a fyddai'n weithredol o 2020-21 ymlaen gan gynnwys effeithlonrwydd gweithredol pellach, prosesau busnes symlach, buddsoddiad TG, caffael gwell a rheoli contractau a dileu rhai swyddi staff gwag.

Cymunedau: Gwasanaethau a Ddarperir

